**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Mehefin 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gofyn am eglurhad ar bwyntiau yn ymwneud â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Gweler fy ymatebion ar gyfer pob un o'ch cwestiynau isod.

1) *Gofynnoch chi sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd y broses o roi'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith.*

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn drwy fesurau clir, gan gynnwys dangosyddion ar gyfer llwyddiant. Rydym wedi rhannu ein camau gweithredu yn un ar ddeg o feysydd polisi eang ac wedi nodi cyfres glir o nodau a chamau gweithredu ar gyfer sicrhau gwrth-hiliaeth.

Mae'r Strwythur Llywodraethu yn ei le, gyda'r Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol bellach yn cyfarfod yn fisol. Rydym wedi penodi chwe arbenigwr allanol ar wrth-hiliaeth ac un ar ddeg o gynrychiolwyr o'r gymuned a chanddynt brofiad bywyd, i ymuno â'r Grŵp Atebolrwydd Allanol. Yr Athro Emmanuel Ogbonna ac Andrew Goodall, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yw'r Cyd-gadeiryddion. Mae'r Grŵp bellach yn cyfarfod bob deufis. Prif ffocws y Grŵp Atebolrwydd yw sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflawni, gan fonitro'r cynnydd o ran y camau gweithredu a'r ymrwymiadau, a sicrhau na chollir momentwm.

Rydym wedi uwchlwytho y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyfan i'r Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes i sefydlu dull a rennir o olrhain cynnydd a chyflawni ein hymrwymiadau. Mae'n darparu ffordd syml a chyson o gofnodi, monitro ac adrodd yn erbyn ymrwymiadau a blaenoriaethau. Mae'r Adnodd Adrodd hwn wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Pwyllgor Gweithredol fel yr adnodd adrodd ar berfformiad corfforaethol i Lywodraeth Cymru ar gyfer monitro'r broses o gyflawni ymrwymiadau'r Gweinidogion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

2) *Fe wnaethoch chi hefyd ofyn pa rôl fydd gan y cydgysylltwyr cydlyniant wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan gynnwys, manylion ar sut y bydd y naw cydgysylltydd cydlyniant yn gweithio ledled Cymru, a beth yw eu rôl yn fwy cyffredinol.*

Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn gweithredu ar draws pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd, at ddibenion y rhaglen hon, wedi'u rhannu yn wyth rhanbarth cydlyniant: Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Dwyrain Gwent, Gorllewin Gwent, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru, a Bae Abertawe. Mae pob un o'r wyth tîm rhanbarthol yn cynnwys un cydgysylltydd arweiniol a gefnogir gan ddau swyddog cydlyniant.

Ar hyn o bryd mae'r timau cydlyniant yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- Monitro tensiynau yn y gymuned a gweithio gyda phartneriaid i'w lliniaru
- Cefnogi cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i ddarparu hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb a chynhwysiant
- Sicrhau bod materion cydlyniant cymunedol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau a pholisïau awdurdodau lleol
- Meithrin cysylltiadau da drwy ddatblygu digwyddiadau a phrosiectau i ddod â phobl o wahanol gymunedau at ei gilydd

Mae'r timau cydlyniant wedi bod yn rhan bwysig o ymateb Llywodraeth Cymru i nifer o faterion newydd ac annisgwyl a effeithiodd ar gymunedau yng Nghymru, gan gynnwys cynorthwyo cymunedau a ymyleiddiwyd yn ystod pandemig COVID-19, ymateb i fflachbwyntiau o densiwn fel y sefyllfa o ran tai i'r bobl a oedd yn ceisio noddfa ym Mhenalun, a chefnogi ymateb yr awdurdod lleol i achosion o bobl yn mudo yn sydyn o Syria, Affganistan, Wcráin a Hong Kong.

Bydd y timau cydlyniant yn bwrw ymlaen â'r ddau nod a ganlyn o'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol:

- Bydd y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau drwy leihau achosion o wahanu a chynyddu empathi a dealltwriaeth.

- Sicrhau bod timau cydlyniant yn gweithredu fel cyswllt rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus er mwyn annog cyfranogiad wrth lunio polisïau a sicrhau cyfle cyfartal i gymunedau ethnig lleiafrifol.

3) *Gofynnoch chi hefyd pa rôl fydd gan y tîm gweithredu wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.*

Mae Tîm Cyflawni y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn arwain ar ddatblygu a monitro'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun. Maent yn cefnogi'r broses o roi'r Cynllun ar waith drwy weithio'n agos gyda swyddogion polisi mewnol a rhanddeiliaid allanol.

Mae'r Tîm Cyflawni wedi sefydlu model strwythur llywodraethu arloesol. Mae'r Tîm yn cydweithio'n agos â'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, y Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol, a'r Grŵp Atebolrwydd Allanol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu pedwar Fforwm Rhanbarthol ledled Cymru a fydd yn casglu ynghyd brofiadau bywyd ac yn darparu cyswllt uniongyrchol â'n gwaith a'n

hymgysylltiad â'n pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ledled Cymru. Cyn bo hir byddant yn sefydlu is-grwpiau ar gyfer pob maes polisi, fel addysg, tai, iechyd, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon, gofal plant, chwarae, a'r amgylchedd a newid hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig a’n bod yn defnyddio'r holl arbenigedd o fewn ein rhwydwaith.

4) *Yn olaf, fe wnaethoch chi ofyn a yw'r tîm yn gwbl weithredol ar hyn o bryd.*

Ydy, mae’r Tîm yn gwbl weithredol. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys Riaz Hassan fel Pennaeth Tîm Cyflawni y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, dau Uwch-reolwr Prosiect, un Rheolwr Cyflawni ac un Swyddog Polisi. Mae gennym swydd wag Cymorth Tîm i’w llenwi.

Gobeithio bod hyn yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor ac yn rhoi'r eglurhad angenrheidiol.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif
Minister for Social Justice and Chief Whip